MOSTYN

**FY 'STAFELL WELY AR-LEIN**

**TELERAU AC AMODAU YMGEISIO A CHYFRANOGI**

Darllenwch y Telerau ac Amodau Ymgeisio canlynol os gwelwch yn dda.

Mae ‘Fy 'Stafell Ar-lein’ ar agor i unrhyw un (14+ oed). Nid oes cyfyngiad daearyddol i ymgeisio.
Bydd gweithiau dethol yn cael eu dangos ar sianeli digidol MOSTYN. Trwy gyflwyno gwaith, mae'r cyfranogwyr yn cytuno i'r Telerau ac Amodau Ymgeisio, ac i'w gwaith gael ei ddangos a'i atgynhyrchu at ddibenion cyhoeddusrwydd.

**Y BROSES YMGEISIO**

I gyflwyno gwaith celf ar gyfer Fy 'Stafell Wely Ar-lein, rhaid i bob artist gyflwyno ei gwaith trwy e-bost i engagement@mostyn.org

Dylech gynnwys y wybodaeth ganlynol os gwelwch yn dda:

- Eich enw (opsiynol)
- Eich oedran (opsiynol - mae hyn ar gyfer ddibenion monitro yn unig)
- Eich lleoliad - dywedwch wrthym eich tref neu ddinas a gwlad agosaf (opsiynol - mae hyn at ddibenion monitro yn unig)
- Enw cyfrif Instagram (opsiynol)
- Teitl y gwaith
- Cyfrwng
- Dimensiynau mewn mm (gofynnol)
- Hyd at 50 o eiriau sy'n disgrifio eich gwaith (opsiynol)

Pan gyflwynwch eich gwybodaeth bersonol ar-lein rydych hefyd yn cytuno i'ch data gael ei storio yn unol â Pholisi Preifatrwydd MOSTYN.

- Gellir cyflwyno hyd at tair gwaith celf fesul person, ond dim ond un gwaith celf fesul person fydd yn cael ei ddewis.
- Dylid cyflwyno ceisiadau fel ffeiliau JPEG digidol yn unig. Rhaid i ddelweddau ddim bod yn llai na 200KB (cilobeit) a dim mwy na 5MB (megabeit) mewn maint.
- Rhaid i'r gweithiau a gyflwynir fod yn wreiddiol, gyda'r artist â hawliau llawn a chaniatâd i ddefnyddio, gan gynnwys delweddau o bobl eraill a ddangosir yn y gwaith celf.
- Peidiwch â rhoi eich enw, teitl, gwefan, dyfrnodau na symbolau hawlfraint unrhyw le ar y delweddau eu hunain oni bai bod hyn yn rhan o'r gwaith rydych chi'n ei gyflwyno.

**Y BROSES DDETHOL**

Bydd pob cyflwyniad a delwedd yn cael eu cyflwyno'n ddienw i'r panel dethol.

Ni allwn warantu dangos pob un o'r weithiau a gyflwynwyd, a byddwn yn cysylltu â chi dim ond os dewisir eich gwaith.

Ymddiheurwn ei bod yn amhosibl rhoi adborth unigol neu feirniadaeth ar waith heb ei ddewis.

**DYDDIADAU ALLWEDDOL**

Cyflwyniadau ar-lein yn agor: Dydd Mawrth 26 Ionawr 2021

Dyddiad cau cyflwyniadau ar-lein: Dydd Mawrth 9 Mawrth 2021

Cyhoeddir gweithiau dethol ar wefan MOSTYN a sianel Instagram o 18 Mawrth 2021.